Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Canolfan Ddeintyddol Holton
# Dyddiad y gweithgarwch: 23 Tachwedd 2021

Dyddiad cyhoeddi: 29 Rhagfyr 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80391-536-4

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Ganolfan Ddeintyddol Holton fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis deintyddol hwn yn cynnig triniaethau a gwasanaethau'r GIG a gwaith preifat fel ei gilydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 23 Tachwedd 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg iechyd a diogelwch amgylcheddol
- Asesiad risg COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom adolygu'r dogfennau allweddol a restrir uchod, gan gadarnhau eu bod wedi'u cwblhau a'u dyddio'n ddigonol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y newidiadau a wnaed i'r practis er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y mannau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Mae'r practis yn cadw'r drws ffrynt dan glo ar hyn o bryd er mwyn atal unrhyw un sydd heb apwyntiad rhag dod i mewn i'r practis. Mae hefyd yn cynnal apwyntiadau hirach er mwyn caniatáu amser i lanhau ac i leihau traffig yn yr ystafell aros. Mae cadeiriau yn yr ystafell aros wedi'u gosod â digon o le rhyngddynt, ond fe'n hysbyswyd bod staff yn ceisio cael cleifion yn syth i'r ystafell driniaeth pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Bydd staff y dderbynfa yna'n glanhau'r ystafell aros, y drysau a'r canllawiau ar ôl i bob claf fynd i'r practis. Fe'n hysbyswyd y gall y practis gymryd taliadau dros y ffôn a'i fod hefyd yn defnyddio sticeri untro ar y peiriant cardiau yn y practis, sy'n cael eu newid ar ôl pob cwsmer.

Cyn eu hapwyntiad, anfonir holiadur COVID-19 at gleifion trwy e-bost. Bydd staff hefyd yn llenwi'r ffurflen trwy alwad ffôn ar gyfer unrhyw gleifion sydd heb fynediad at e-bost neu'r porth gwybodaeth. Wedyn, mae'r wybodaeth hon yn cael ei nodi yng nghofnodion meddygol electronig pob claf. Ar ôl cyrraedd y practis, gofynnir i gleifion eto a ydynt yn arddangos unrhyw symptomau COVID-19 cyn eu hapwyntiad a chymerir eu tymheredd.

Dywedwyd wrthym nad oes gan y practis unrhyw gleifion sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae dau aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn ogystal â pherchennog y practis. Mae posteri dwyieithog trwy gydol y practis a dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod postiadau ar y wefan a’r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu gwneud yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae gan y practis fynediad at wasanaeth cyfieithu yn ogystal.

Mae pob ystafell driniaeth wedi'i chyfarparu ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu

aerosolau.[1] Fe'n hysbyswyd bod systemau hidlo aer wedi cael eu gosod mewn pob un a bod y ffenestr yn cael ei gadael ar agor pryd bynnag y bo modd yn ystod gweithdrefnau. Mae'r holl staff yn gwisgo a diosg[2] cyfarpar diogelu personol cyn mynd i mewn i'r ystafelloedd triniaeth a defnyddir system nyrs gyfaill pe bai angen rhywbeth ychwanegol yn ystod gweithdrefn.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Copi o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Polisi glanhau
- Gwiriadau dyddiol o'r awtoclaf
- Copi o gofnodion uwchsonig

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rhoddwyd dogfennau amrywiol inni ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys polisi glanhau. Gwelsom dystiolaeth hefyd o amserlenni a chofnodion glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer yn yr ystafelloedd triniaeth a chopi o archwiliad dihalogi cyflawn Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y rhain i gyd yn drylwyr ac wedi'u cwblhau.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau. Mae'r holl staff wedi gwylio fideos hyfforddiant cyfarpar diogelu personol i sicrhau cymhwysedd wrth wisgo a diosg. Mae gan staff hefyd fynediad at gardiau lluniau y gellir eu sychu, gan ddangos yr offerynnau sydd eu hangen ar gyfer pob eitem o gyfarpar, fel y gellir paratoi'r hambyrddau ymlaen llaw. Pe bai angen unrhyw offerynnau neu gyfarpar ychwanegol, mae'r practis yn gweithredu system nyrs gyfaill.
Mae unrhyw newidiadau i bolisïau atal a rheoli heintiau yn cael eu cyfleu i staff trwy

[1] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.
[2] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

gyfarfodydd a negeseuon e-bost, gyda chopïau caled o bolisïau a gweithdrefnau wedi'u hargraffu i staff eu llofnodi a'u dyddio ar ôl eu darllen.

Fe'n hysbyswyd bod y practis yn ei chael hi'n anodd i ddechrau cael gafael ar stociau o gyfarpar diogelu personol ar ddechrau'r pandemig, a thynnwyd sylw penodol at brinder masgiau. Yn nes ymlaen, fodd bynnag, dechreuodd y Bwrdd Iechyd Lleol ddarparu stoc yn amlach. Roedd rheolwr y practis hefyd yn cyrchu stoc ychwanegol os oedd angen.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom ystyried a yw’r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad asesu a monitro ansawdd darpariaeth y gwasanaeth (a baratowyd o dan Reoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)
- Polisi cydsynio
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i'r holl staff
- Archwiliad cardiau cofnod
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth i gleifion ddiweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi diweddaru eu hyfforddiant gorfodol ac yn cydymffurfio ag ef. Mae gan bob aelod o staff fynediad i academi hyfforddi ar-lein ar gyfer e-ddysgu[3] ac mae ganddynt eu pyrth unigol eu hunain. Mae'n ofynnol i weithiwyr argraffu eu holl dystysgrifau hyfforddiant ac mae copïau ohonynt yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Dywedwyd wrthym fod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adrodd am

[3] Dysgu a gynhelir trwy gyfryngau electronig, yn nodweddiadol ar y rhyngrwyd.

ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Cyflwynir unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i staff trwy reolwr y practis yn ystod cyfarfodydd tîm a dros e-bost.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Mae'r derbynnydd yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau bod yr ocsigen yn llawn a bod y diffibriliwr wedi'i wefru'n llawn. Mae gwiriadau mwy manwl yn cael eu cynnal yn wythnosol lle mae pob dyddiad dod i ben cyffuriau yn cael ei wirio a'i lofnodi pan fydd wedi'i gwblhau.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben,[4] a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom adolygu'r daflen wybodaeth i gleifion,[5] a oedd, yn ôl pob golwg, heb rywfaint o'r wybodaeth sy'n ofynnol, fel yr amlinellwyd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fel y soniwyd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, dylid rhestru pob gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol yn y ddogfen hon. Rydym yn argymell bod y gwasanaeth yn cynnwys y manylion canlynol yn ei daflen wybodaeth i gleifion:

- Trefniadau ar gyfer delio â chleifion difrïol
- Trefniadau ar gyfer delio â chwynion
- Profiad a chymwysterau'r holl ddeintyddion a gweithwyr proffesiynol deintyddol
- Trefniadau ar gyfer ceisio barn cleifion
- Trefniadau ar gyfer datblygiad a hyfforddiant gweithwyr
- Manylion unigolion sydd â mynediad i wybodaeth am gleifion

[4] Ystyr "datganiad o ddiben" ("statement of purpose") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac Atodlen 1.
[5] Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Canolfan Ddeintyddol Holton

Dyddiad y gweithgarwch: 23/11/2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae’n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i’r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:<br><br>•Trefniadau ar gyfer delio â chleifion difrïol<br>•Trefniadau ar gyfer delio â chwynion<br>•Profiad a chymwysterau'r holl ddeintyddion a gweithwyr proffesiynol deintyddol<br>•Trefniadau ar gyfer ceisio barn cleifion<br>•Trefniadau ar gyfer datblygiad a hyfforddiant gweithwyr<br>•Manylion pobl sydd â mynediad i wybodaeth am gleifion | Rheoliad 6 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | Bydd Louise Slimings yn ychwanegu'r wybodaeth ofynnol at y daflen wybodaeth i gleifion i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei darparu i'r cleifion wrth ymuno â'r practis. | Louise Slimings Rheolwr y practis | Diweddaru taflen wybodaeth y practis a'i hanfon at AGIC cyn 23/02/2022 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

| | |
|---|---|
| Enw: | Louise Slimings |
| Dyddiad: | 13.12.21 |